# **Atodiad D Canlyniadau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus:** Strategaeth Leol Sir y Fflint ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd 2025 (LFRMS 2025)

## Dyddiad yr Ymgynghoriad:

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus o 25/06/2025 i 30/07/2025

Dulliau ymgysylltu: Arolwg ar-lein ar wefan Cyngor Sir y Fflint, ar gael yn Saesneg a Chymraeg.

Cafodd budd-ddeiliaid allweddol gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i Awdurdodau Rheoli Risg, Awdurdodau Lleol Cymdogol, Aelodau Etholedig, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a grwpiau rheoli risg llifogydd lleol gweithredol, eu hysbysu o'r ymgynghoriad trwy e-bost, gyda dolen ddigidol i'r arolwg yn y ddwy iaith.

Roedd pobl nad oeddent yn gallu llenwi'r arolwg ar-lein yn gallu mynd i unrhyw un o'r Canolfannau Cyswllt lle'r oedd cefnogaeth ar gael. Roedd y Canolfannau Cyswllt ar agor rhwng 9am a 4.30pm ar y diwrnodau canlynol: Bwcle: Dydd Mawrth, Dydd Mercher, Dydd Iau, Cei Connah, Y Fflint a Threffynnon: Dydd Llun i Ddydd Gwener a'r Wyddgrug: Dydd Llun, Dydd Mercher a Dydd Gwener

## **Ymatebion**

Cyfanswm yr ymatebion: cofnodwyd 7 ymateb trwy'r arolwg ar-lein, gydag ymateb ychwanegol wedi'i dderbyn trwy e-bost.

Er bod yr ymgynghoriad wedi cipio gwybodaeth leol werthfawr, roedd ymgysylltiad wedi'i wyro tuag at bentrefi a pherchnogion tai penodol a phreswylwyr gwybodus, gydag ychydig iawn o fewnbwn gan fusnesau, a budd-ddeiliaid allanol eraill megis Awdurdodau Rheoli Risg.

## Crynodeb o'r newidiadau arfaethedig i'r LFRMS yn dilyn yr ymgynghoriad

- Bydd tabl manwl yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau Awdurdodau Rheoli Risg yn cael ei ychwanegu er eglurder.
- Bydd y Cynllun Gweithredu Polisi yn parhau i gael ei adolygu a'i gyhoeddi'n flynyddol ar wefan y Cyngor i wella tryloywder ac olrhain cynnydd.
- Ni fydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i'r Canllaw Systemau Draenio Cynaliadwy Gogledd Cymru, sydd yn ddogfen gymeradwy, a gynhyrchwyd ar y cyd, sydd ar gael ar-lein.
- Mae'r cwestiwn ar ofynion Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy yn parhau i godi ymwybyddiaeth o newidiadau deddfwriaethol ers 2019, gyda mwy o wybodaeth wedi'i ddarparu ar wefan Sir y Fflint.
- Bydd Atodiad F "Allbynnau'r Cynllun Rheoli Risg Llifogydd" yn cael ei addasu i adlewyrchu risgiau llifogydd Prif Afon yn gywir o fewn ardal Gofrestr Cymunedau mewn Risg Bretton.

**C1. Pwy atebodd yr arolwg?**

| Ymateb | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Arall (nodwch) | 0 |
| Awdurdod Rheoli Risg | 1 |
| Un o'r gwasanaethau brys | 0 |
| Aelod etholedig lleol neu gynghorydd | 2 |
| Perchennog Busnes | 0 |
| Cynrychiolydd grŵp lleol | 1 |
| Preswylydd | 3 |

**C2. Ym mha god post ydych chi'n byw/gweithio?**

| Nifer yr Ymatebwyr | Ardal | Sir |
|---|---|---|
| 2 | Yr Wyddgrug | Sir y Fflint |
| 1 | Yr Wyddgrug / Pentre Cythrel | Sir y Fflint |
| 3 | Brychdyn | Sir y Fflint |
| 1 | Brychdyn (ger Caer / Airbus) | Sir y Fflint |
| 1 | Dinbych | Sir Ddinbych |

**C3. Ydych chi erioed wedi profi llifogydd yn eich cartref neu weithle?**

| Ymateb | Canran yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Do, llifogydd i du mewn a thu allan yr eiddo | 14.3% |
| Do, llifogydd allanol yn unig (ffordd/gardd/adeiladau allan/garej) | 14.3% |
| Nac ydw | 71.4% |

**C4. Ydych chi'n byw mewn ardal o risg llifogydd*?**

| Ymateb | Canran yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Ydw, dangosir risg llifogydd ar fapiau ar-lein CNC | 28.6% |
| Ydw, ni ddangosir risg llifogydd ar fapiau ar-lein CNC | 0% |
| Nac ydw, ni ddangosir risg llifogydd ar fapiau ar-lein CNC | 71.4% |

**Mae mapiau risg llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cynnig trosolwg dangosol o'r ardaloedd sydd mewn risg o lifogydd o ffynonellau gan gynnwys: prif afonydd, y môr, cronfeydd dŵr a dŵr wyneb. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw'r mapiau hyn yn gyflawn ac efallai nad ydynt yn cipio'r holl risgiau llifogydd lleol.*

**C5. Beth yw eich prif bryderon mewn perthynas â rheoli risg llifogydd?**

| Rhif | Ymateb | Sylwadau CSFf |
|---|---|---|
| **1** | Hendre - y prif bryderon yw'r llifogydd rheolaidd ar hyd Mill Terrace a Lloyd Terrace, Rhydymwyn.<br>- system geuffos breifat yn gorlifo ac yn llifo tuag at Rhydymwyn ar yr A541 o ochr yr Wyddgrug o gyffordd Rhosesmor.<br>Cilcain - y prif bryder yw'r dŵr sy'n gorlifo i lawr Mountain Road gan arwain at yr angen am system gyli newydd i lawr Mountain Road, heibio maes parcio'r pentref, troi i'r dde ar y Sgwâr ac ymuno â'r system bresennol o flaen y Capel.<br>Cyffredinol - y prif bryder yw'r diffyg cynnal a chadw rheolaidd gan arwain at geuffosydd a gylïau wedi'u rhwystro. | Mae Hendre wedi'i gipio ar Gynllun Gweithredu Strategaeth, Cyf 11 a Chilcain Cyf 06.<br><br>Mae ymateb ymgynghoriad llawn wedi cael ei rannu gyda Swyddog Ymchwilio Llifogydd LLFA Sir y Fflint am ymchwiliad pellach fel rhan o'r cynllun ehangach 'ABL Hendre' Cafodd ABA Hendre ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2025. Cafodd datganiad o ddiddordeb am gyllid allanol i gefnogi datblygu cynllun ar gyfer Hendre ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2025. |
| **2** | Rydym yn byw rhan o'r ffordd i lawr Clayton Road ym Maes-y-March, ar 2 achlysur o law trwm nid yw'r geuffos yng nghyffordd Clayton Road a Queens Park wedi gallu ymdopi gyda'r dŵr yn sgil rheolaeth gwal ac o ganlyniad, mae dŵr yn gorlifo i lawr Clayton Road ar gyflymder, ac am ryw reswm mae'n troi i'r chwith i Maes-y-March, sydd yn ei dro yn llenwi ac wedi achosi llifogydd mewn nifer o eiddo, gan ei gwneud yn ofynnol i dimoedd tân ac achub ddod i hebrwng nifer i breswylwyr allan. | Mae Brychdyn wedi'i gipio ar y Cynllun Gweithredu Strategaeth Cyf 12a, 12b, 12c.<br><br>Mae ymateb ymgynghoriad llawn wedi cael ei rannu gyda Swyddog Ymchwilio Llifogydd LLFA Sir y Fflint am ymchwiliad pellach.<br><br>Mae Map Llifogydd CNC yn amlygu'r risg a ddisgrifiwyd yn y lleoliad hwn o law trwm.<br><br>Mae'r ardal hon yn ffurfio rhan o gynllun llifogydd ehangach ar gyfer yr Wyddgrug sy'n cael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. |
| **3** | Mae gan aelodau o Grŵp Llifogydd Brychdyn a Bretton nifer o bryderon am reolaeth risg llifogydd yn ein hardal o Sir y Fflint, gyda rhai enghreifftiau wedi'u nodi yma: yn ein profiad ni ychydig iawn o gymorth sydd wedi bod ar gael i breswylwyr yn ystod digwyddiadau o lifogydd; mae unrhyw ymateb gan awdurdodau lleol/sefydliadau wedi bod yn araf iawn; mae'n ymddangos nad yw Cyngor Sir y Fflint yn gallu darparu gwaith cynnal a chadw sylfaenol rheolaidd ar y priffyrdd/systemau draenio presennol er mwyn lleihau'r risg o lifogydd; dros y blynyddoedd nid yw penderfyniadau a wnaed gan | Mae Brychdyn wedi'i gipio ar y Cynllun Gweithredu Strategaeth 03a, 03b, gyda chynlluniau parhaus i hyrwyddo gwelliannau sgrin brigau, Rheolaeth Llifogydd Naturiol a datblygiad cynllun llifogydd ar gyfer ardal Brychdyn yn destun cyllid Llywodraeth Cymru a chytundeb perchennog tir lleol. Dylid nodi bod darpariaeth o gynllun lliniaru llifogydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fel arfer yn cymryd sawl blwyddyn o'r cychwyn hyd at gwblhau. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen am fodelu hydrolig manwl, gwerthuso dewisiadau, asesiad amgylcheddol, ymgynghoriad cyhoeddus, |

| | | |
|---|---|---|
| | gynllunwyr lleol yn ymddangos eu bod wedi cael eu llywio gan TAN 15, ac mae datblygiad helaeth wedi digwydd sydd wedi effeithio ar gapasiti storio dŵr yn yr ardal ac wedi cynyddu'r bygythiad o lifogydd; mae polisi hirhoedlog CNC o 'beidio â charthu' wedi arwain at ddraeniau afonydd a'r afon sy'n llawn llaid, gan gyfyngu ymhellach ar storio dŵr ar adegau o law trwm a digwyddiadau storm. Mae rhai o'r problemau a nodwyd o ganlyniad i adnoddau annigonol. | cymeradwyo cyllid, trafod gyda'r perchennog tir, a chaniatâd statudol, yna dyluniad manwl a gwaith adeiladu wedyn.<br><br>O ganlyniad, gall hyd yn oed y cynlluniau lliniaru llifogydd ar raddfa eithaf bach, gymryd rhwng 5 a 10 mlynedd i ddatblygu o'r dechrau hyd at ei gyflawni, gyda chynlluniau mwy cymhleth yn cymryd hirach.<br><br>Mae'n gam cadarnhaol bod y Grŵp Llifogydd Cymunedol Brychdyn a Bretton wedi cael ei sefydlu ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r ALlLlA ac Awdurdodau Rheoli Risg eraill, gan gynnwys yr Awdurdod Priffyrdd. |
| **4** | Mae nifer o bobl yn yr ardal wedi cael eu gwneud yn ddigartref am gyfnodau hir. Mae hyn yn effeithio ar eu hiechyd meddwl. Mae prisiau eiddo yn dirywio. | Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall lifogydd gael effeithiau sylweddol a hirhoedlog ar breswylwyr a gaiff eu heffeithio. Mewn rhai achosion, gall unigolion a theuluoedd orfod symud o'u cartrefi am gyfnodau estynedig, a all gael effaith andwyol ar iechyd meddwl a lles. Gall lifogydd hefyd achosi pryderon o ran cyflwr eiddo a'r effeithiau ar werth eiddo.<br><br>Nid yw'r cyngor yn diystyru'r effeithiau hyn ac mae'n parhau i weithio gyda sefydliadau partner, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Rheoli Risg eraill, i leihau risg lle bo'n rhesymol ymarferol ac i gefnogi cymunedau a effeithir gan lifogydd. |
| **5** | Dim | **Amherthnasol** |
| **6** | Dim | **Amherthnasol** |
| **7** | Dim | **Amherthnasol** |
| **8** | Dim | **Amherthnasol** |

**C6. Pa mor glir mae adran 4 y Strategaeth yn nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau?**

| Ymateb | Canran yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Clir iawn | 28.6% |
| Eithaf clir | 28.6% |
| Ddim yn glir | 42.9% |

**Newidiadau i'r ddogfen:**

*Mae'r ddogfen bresennol yn cynnwys pictogram o'r prif Awdurdodau Rheoli Risg a'u rolau a chyfrifoldebau mewn ymateb i bob math o lifogydd.*

*Er eglurder ychwanegol, bydd y tabl canlynol yn cael ei ychwanegu i'r ddogfen.*

| Awdurdod Rheoli Risg | Prif Gyfrifoldebau Llifogydd yng Nghymru |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | Yn gosod y polisi a deddfwriaeth rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol; yn darparu cyllid; yn goruchwylio Awdurdodau Rheoli Risg a'r strategaeth genedlaethol. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) | Yn rheoli risg llifogydd o brif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr; yn cyflwyno rhybuddion llifogydd; yn cynnal a chadw a gweithredu amddiffynfeydd llifogydd mawr; yn darparu cyngor a mapiau risg llifogydd. |
| Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (ALlLlA)<br>(Cyngor Sir neu Fwrdeistref Sirol) | Yn rheoli risg llifogydd o ddŵr wyneb, cyrsiau dŵr cyffredin a dŵr daear; yn ymchwilio i ddigwyddiadau llifogydd mawr; yn cynnal cofrestrau asedau; yn llunio strategaethau lleol rheoli risg llifogydd. |
| Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) | Yn sicrhau bod risg llifogydd yn cael ei ystyried yn ystod penderfyniadau cynllunio yn unol â'r polisi cenedlaethol (TAN15); yn defnyddio rheolaeth datblygu i osgoi datblygiad amhriodol mewn ardaloedd lle mae risg o lifogydd. |
| Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy<br>(O fewn yr Awdurdod Lleol) | Yn cymeradwyo, mabwysiadu ac yn gorfodi Systemau Draenio Cynaliadwy ar gyfer mwyafrif y datblygiadau newydd; yn sicrhau bod dŵr wyneb yn cael ei reoli'n gynaliadwy cyn i waith adeiladu ddechrau. |
| Awdurdod Priffyrdd | Yn rheoli risg llifogydd o systemau draenio priffyrdd, gan gynnwys ceuffosydd a draeniau ar ymyl y ffordd; yn ymateb i lifogydd sy'n effeithio ar y briffordd gyhoeddus. |
| Cwmnïau Dŵr a Charthffosiaeth | Yn rheoli risg llifogydd o garthffosydd cyhoeddus; yn cynnal a chadw ac uwchraddio isadeiledd carthffosiaeth; yn ymateb i ddigwyddiadau o lifogydd carthffosiaeth. |
| Perchnogion Tir / Glannau Afon | Yn gyfrifol am gynnal a chadw cyrsiau dŵr cyffredin ar neu ger eu tir er mwyn galluogi llif dŵr. |
| Gwasanaethau Brys a Fforwm Lleol Cymru Gydnerth | Yn ymateb i argyfyngau llifogydd; yn cydlynu digwyddiadau gwacau, diogelwch y cyhoedd ac adfer ar ôl digwyddiadau llifogydd difrifol. |

**C7. I ba raddau y byddech yn cytuno neu anghytuno gyda chynllun gweithredu'r polisi arfaethedig (meysydd blaenoriaeth allweddol)?**

| Ymateb | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Anghytuno'n gryf | 2 |
| Anghytuno | 0 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 0 |
| Cytuno | 3 |
| Cytuno'n gryf | 2 |

**Nodwch pa Gamau Gweithredu Polisi yr ydych yn anghytuno gyda nhw a rhowch eich rhesymau:**

- Gwella dealltwriaeth o lifogydd lleol
- Gwella Cyfathrebu
- Gwytnwch a pharodrwydd cynyddol
- Lleihau risg ac effaith llifogydd ac erydu arfordirol i unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd
- Dull cynaliadwy a holistaidd o weithio
- Lle bo'n bosib, blaenoriaethu buddsoddiadau ar gyfer y cymunedau sy'n wynebu'r risg fwyaf
- Darparu ymchwiliadau priodol ac effeithiol i lifogydd
- Defnyddio gwybodaeth a data i nodi penderfyniadau cynllunio, y Corff Cymeradwyo a llunio polisi

Ni allaf ddod o hyd i dystiolaeth bod yr amcanion hyn yn cael eu datblygu.
Fel Cynghorydd Lleol, rydym yn derbyn cwynion am lifogydd lleol yn rheolaidd ers 20 mlynedd ac maent yn parhau heb eu datrys. Mae enghreifftiau o Gofnodion Diweddar *wedi cael eu tynnu o'r ddogfen hon.* Maent yn cynnwys dwy enghraifft o leoliadau lle mae problem draenio preifat a ellir ei ddatrys yn breifat gan y perchennog tir trwy Dribiwnlys Draenio Tir Cymru (www.agriculturallandtribunal.gov.wales) os na chaiff ei ddatrys trwy drafodaethau gyda'r perchennog tir gerllaw. Mae'n amlygu'r cymhlethdodau o reoli risg llifogydd a chyfrifoldebau o ran rheoli risg llifogydd yng Nghymru.

**Newidiadau i'r ddogfen:**

Dim. Bydd y cynllun gweithredu'n cael ei adolygu a'i gyhoeddi'n flynyddol ar wefan y Cyngor i sicrhau tryloywder a helpu i olrhain cynnydd.

**C8. Pa mor addas yw'r camau yn y Cynllun Gweithredu Polisi ar gyfer cyflawni'r amcanion?**

| Ymateb | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Ddim yn gwybod | 2 |
| Ddim yn addas o gwbl | 1 |
| Ddim yn addas iawn | 0 |
| Eithaf addas | 3 |
| Addas | 1 |

**Ymateb:**

*Mae'r ALlLlA yn cydnabod yr adborth o ran addasrwydd y camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Polisi.*

*Bydd yr ALlLlA yn parhau i weithio gydag asiantaethau partner i sicrhau bod y camau gweithredu'n realistig, yn gallu cael eu cyflawni, a bydd yn ceisio adnoddau ychwanegol / cyllid allanol lle bo ar gael i fonitro cynnydd er mwyn sicrhau bod amcanion y cynllun yn cael eu diwallu.*

**<u>Newidiadau i'r ddogfen:</u>**

Dim. Bydd y cynllun gweithredu'n cael ei adolygu a'i gyhoeddi'n flynyddol ar wefan y Cyngor i sicrhau tryloywder a helpu i olrhain cynnydd.

**C9. Ydych chi'n cytuno gyda'r camau a gynhigir ar gyfer eich ardal?**

| Ymateb | Canran yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Ydw | 33.3% |
| Nac ydw | 66.7% |

**C10. A oes unrhyw gamau gweithredu eraill yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnig ar gyfer yr ardal?**

| **Rhif** | **Ymatebion i'r Ymgynghoriad** | **Cyf Cynllun Gweithredu** | **Sylwadau CSFf** |
|---|---|---|---|
| **1** | Hendre - y prif bryderon yw'r llifogydd rheolaidd ar hyd Mill Terrace a Lloyd Terrace, Rhydymwyn. Cilcain - y prif bryder yw'r dŵr sy'n gorlifo i lawr Mountain Road gan arwain at yr angen am system gyli newydd i lawr Mountain Road, heibio maes parcio'r pentref, troi i'r dde ar y Sgwâr ac ymuno â'r system bresennol o flaen y Capel. Cyffredinol - y prif bryder yw'r diffyg cynnal a chadw rheolaidd gan arwain at geuffosydd a gylïau wedi'u rhwystro Angen mwy o bwyslais ar yr angen am waith cynnal a chadw rheolaidd gwell. | Hendre 11 Cilcain 06 | Mae'r ddwy ardal wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Cymuned Benodol CSFf. Cyffredinol - Rydym yn cydnabod y pryderon o ran y gylïau a cheuffosydd wedi'u rhwystro. Mae nifer o Awdurdodau Rheoli Risg yn gyfrifol am wahanol rannau o'r rhwydwaith, ac mae cynnal a chadw rheolaidd yn cael ei flaenoriaethu yn amodol ar y cyllid sydd ar gael. Mae gwelliannau mewn rheoli asedau yn galluogi mwy o waith cynnal a chadw rhagweithiol ac wedi'i dargedu, gan helpu i leihau rhwystrau a'u heffeithiau, lle mae adnoddau'n caniatáu. |
| **2** | Am y rhesymau a nodwyd yn flaenorol ni allwn wneud sylwadau ar y camau gweithredu. | Amherthnasol | |
| **3** | Nid yw fy ardal Brychdyn a Bretton wedi'i grybwyll yn y cynllun sydd yn siomedig iawn gan fod dros 40 o eiddo gyda phroblemau. Gormod o asiantaethau ynghlwm gyda pholisïau gwahanol, dylai un corff llywodraeth fod yn goruchwylio'r holl beth. Gormod o ddyblygu a llawer o arian yn cael ei wario mewn gwahanol sectorau'n gwneud polisïau, gellir lleihau hyn. | Bretton 02 Brychdyn 3a a 3b | Mae'r ddwy ardal wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Cymuned Benodol CSFf. Cydnabyddir bod rheoli risg llifogydd yng Nghymru yn gymhleth; fodd bynnag fel Cyngor, ymdrechwn i reoli hyn o fewn y fframwaith cyfreithiol sefydledig. |
| **4** | Rhyw ffordd o fesur a chyfathrebu canlyniadau'r camau gweithredu dymunol hyn. | | Bydd y cynllun gweithredu'n cael ei adolygu a'i gyhoeddi'n flynyddol ar wefan y Cyngor i sicrhau tryloywder a helpu i olrhain cynnydd. |

**<u>Newidiadau i'r ddogfen:</u>**

Dim, mae'r ardaloedd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu presennol. Bydd y cynllun gweithredu'n cael ei adolygu a'i gyhoeddi'n flynyddol ar wefan y Cyngor i sicrhau tryloywder a helpu i olrhain cynnydd.

**C11. Sylwadau ar Ganllaw Draenio Cynaliadwy Gogledd Cymru**

| Rhif | Ymatebion i'r Ymgynghoriad | Sylwadau CSFf |
|---|---|---|
| 1 | Mae angen ei adolygu a'i ddiweddaru gyda'r anawsterau gweithio a pherchnogaeth - cyfrifoldebau o gasglu gwybodaeth yn ôl ar y datblygwr. Mae'r canllaw ei hun yn dda, ond rwy'n credu y gellir rhoi mwy ar y datblygwr er mwyn lliniaru'r llwyth gwaith ar gyfer y timoedd SAB. | Bydd yr ALlLlA yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y canllaw yn parhau i fod yn adnodd ymarferol a hygyrch sy'n cefnogi rheolaeth dŵr wyneb effeithiol a chydymffurfiaeth â gofynion draenio cynaliadwy. |
| 2 | Na | Amherthnasol |
| 3 | Mae'n dweud yr un fath a dylai cyrff ei wneud, ond nid ydynt yn gwneud hyn. Fel carthu'r nentydd a cheuffosydd. Mae'n un peth rhoi ar bapur pwy sy'n gyfrifol am beth ond mewn gwirionedd nid yw hyn yn cael ei gyflawni! Dylid rhoi mwy o atebolrwydd a dylid bod corff sydd wirioneddol yn monitro pryd a ble mae gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn cael ei gyflawni. | Bwriad Canllaw Systemau Draenio Cynaliadwy Gogledd Cymru yw darparu canllawiau clir a chyson ar ddisgwyliadau, gofynion a phrosesau ar gyfer dylunio, cymeradwyo, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw systemau draenio cynaliadwy ar draws rhanbarth Gogledd Cymru. |
| 4 | Yng Nghymru, mae gan Gynghorau Sir ddyletswydd statudol fel Cyrff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy i reoli dŵr wyneb o ddatblygiadau. Ychydig iawn o dystiolaeth sydd yn bodoli bod y polisi hwn yn cael ei weithredu. | Mae Cyngor Sir y Fflint yn cefnogi www.sabsociety.wales ac yn adrodd yn flynyddol i arolwg SAB CLlLC sy'n monitro nifer y mabwysiadau a chymeradwyaeth a roddir gan bob un o'r 22 Awdurdod Lleol. |

**Newidiadau i'r ddogfen:**

Dim. Mae canllaw Systemau Draenio Cynaliadwy Gogledd Cymru yn ddogfen a rennir wedi'i ysgrifennu ar ran Grŵp Rheoli Risg Llifogydd Gogledd Cymru gan Arup Consulting Engineers. Mae'r ddogfen wedi cael ei chymeradwyo gan y grŵp ar gyfer cyhoeddi, ac mae ar gael ar-lein.

**C12. A oeddech chi'n ymwybodol, ers 2019, bod angen i bob datblygiad newydd yn Sir y Fflint o un dŷ neu ragor, neu ardal adeiladu o 100m2 gael draenio cynaliadwy i reoli dŵr arwyneb yn well neu leihau risg llifogydd?**


| Ymateb | Nifer yr Ymatebwyr |
| --- | --- |
| Oeddwn | 5 |
| Nac oeddwn | 2 |

**Newidiadau i'r ddogfen:**

Dim. Roedd y cwestiwn hwn wedi cael ei ddylunio i godi ymwybyddiaeth o ofynion newydd SAB yn Sir y Fflint ac ar draws Cymru ers y newid deddfwriaethol yn 2019. Gwelir rhagor o fanylion ar-lein: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Planning/Sustainable-Drainage-Systems.aspx (yn agor mewn ffenestr newydd).

**C13. Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer gwella'r Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd?**

| Rhif | Ymateb | Sylwadau CSFf |
|---|---|---|
| 1 | Oes, clirio'r draeniau a'r ceuffosydd yn amlach. | Mae nifer o Awdurdodau Rheoli Risg yn gyfrifol am wahanol rannau o'r rhwydwaith, ac mae cynnal a chadw rheolaidd yn cael ei flaenoriaethu yn amodol ar y cyllid sydd ar gael. |
| 2 | Rydym yn croesawu eglurder y wybodaeth a gynhwysir o fewn y ddogfen a fydd yn helpu i hysbysu ac addysgu'r gynulleidfa darged eang, gan gynnwys awdurdodau a sefydliadau a nodir ynddo. Mae cyfuno'r hyn a oedd yn ddwy ddogfen ar wahân yn flaenorol, i un cyhoeddiad, yn darparu darllenwyd gyda mwy o fanylion, nid yn unig o ran cyfeiriad, rolau a chyfrifoldebau yn y dyfodol, ond y bwysicaf oll, canlyniadau mesuradwy a ddylai olygu mwy o atebolrwydd. Rydym yn siŵr fod newid hinsawdd wedi bod yn ysgogiad i nifer o awdurdodau lleol ac mae'n anffodus bod ymateb mor ddifrifol wedi bod yn hwyr yn cyrraedd Sir y Fflint.<br>Mae gennym ni rai cwestiynau/sylwadau:<br>(i) a fyddai'n bosibl cynnwys map yn dangos yr afon, draeniau afon a chyrsiau dŵr yn Sir y Fflint?<br>(ii)mewn perthynas â hepgor Brychdyn o'r ddogfen. Mae rhan o'r pentref yn dioddef llifogydd o gyrsiau dŵr bychain a dŵr wyneb ac mae eiddo preswyl wedi dioddef difrod o ganlyniad i Storm Christoph a Babet. A yw hyn wedi bod yn hepgoriad bwriadol neu a yw'r ystadegau wedi'u cynnwys o fewn y rhai o Bretton?<br>(iii) Dangosir Bretton fel ardal risg llifogydd mewndirol yn Sir y Fflint ac wedi'i restru fel ardal M. Ar y tablau derbynnydd risg, mae Bretton mewn risg o lifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr bychain. Mae hyn wedi ein drysu ni gan ein bod o dan yr argraff bod Draeniau Cyffordd yr Wyddgrug, Bretton a Higher Ferry, oll wedi'u cynnal gan CNC yn rhan o'r brif system afon? | Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd:<br>i) Nid yw mapio afonol wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon ar gyfer ardal Sir y Fflint (437 km$^2$) yn sgil materion hyfywedd sy'n gysylltiedig â chynrychioli nifer o gyrsiau dŵr ar y raddfa sydd ei angen ar gyfer gweledydd effeithiol. Mae CNC yn cadw mapiau digidol o brif afonydd ar-lein: www.datamap.gov.wales/layers/inspire-nrw:NRW_MAIN_RIVERS<br>i) Yn Atodiad F - Allbynnau'r Cynllun Rheoli Risg Llifogydd;<br>Mae ardal Gofrestr Cymunedau mewn Risg Bretton wedi'i enwi, fodd bynnag mae Brychdyn wedi'i leoli o fewn yr ardal Gofrestr Cymunedau mewn Risg "Queensferry-Sandycroft-Manor Lane", mae hyn yn adlewyrchu confensiwn enwi ardaloedd Cofrestr Cymunedau mewn Risg, a deallwn y gall hyn fod yn ddryslyd. Oherwydd hyn mae'r ystadegau ar gyfer Brychdyn wedi'u cynnwys yng Nghofrestr Cymunedau mewn Risg "Queensferry-Sandycroft-Manor Lane" ac mae ystadegau Bretton yng Nghofrestr Cymunedau mewn Risg "Bretton". |

<table>
<tr>
<td></td>
<td>Byddem ni felly wedi dweud bod Bretton mewn risg o lifogydd o’r afon, cyrsiau dŵr bychain, dŵr wyneb a’r system garthffosiaeth.</td>
<td>

iii) Ar ôl adolygu map Cofrestr Cymunedau mewn Risg, rwy’n cytuno y dylai prif afonydd - Draen High Ferry, Draen Cyffordd yr Wyddgrug a Draen Bretton - gael eu cynnwys o fewn ardaloedd Cofrestr Cymunedau mewn Risg Bretton a Lache. Yn unol â hyn, bydd y Cynllun Rheoli Risg Llifogydd yn cael ei addasu. Fel rhan o ABA Bretton, cyflawnwyd a chyflwynwyd astudiaeth modelu fanwl i Lywodraeth Cymru, gan ddarparu manylion mwy cynhwysfawr na’r rhai yng Nghrynodeb y Cynllun Rheoli Risg Llifogydd.</td>
</tr>
<tr>
<td>3</td>
<td>Oes, cynyddu nifer y staff cynllunio fel y gallent graffu ar geisiadau cynllunio gan ddatblygwyr ac unigolion er mwyn gwirio ardaloedd risg llifogydd. Nid yw hyn yn cael ei gyflawni’n aml yn sgil diffyg staff.</td>
<td>Ers Hydref 2025, mae ymatebion ar y cyd gan ymgynghoriadau cynllunio wedi cael eu gwneud gan yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol a’r Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy, gan helpu i gryfhau craffu ar geisiadau cynllunio mewn perthynas â risg llifogydd, er gwaethaf y cyfyngiadau staff.</td>
</tr>
</table>

**Newidiadau i’r ddogfen:**

Bydd Atodiad F “Allbynnau’r Cynllun Rheoli Risg Llifogydd” yn cael ei addasu i adlewyrchu risgiau llifogydd Prif Afon o fewn ardal Gofrestr Cymunedau mewn Risg Bretton.